ARCHIF MENYWOD CYMRU / WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

POLISI CASGLU

Pwrpas casglu:

- I achub tystiolaeth faterol am fywydau a phrofiadau menywod yng Nghymru.
- I roi'r dystiolaeth honno mewn archif bresennol lle caiff ei chofnodi a'i chadw i safon broffesiynol, a'i gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd.
- Trwy hynny i ychwanegu at y ffynonellau hanesyddol ar gyfer astudio bywydau a phrofiadau menywod yng Nghymru a'r byd ehangach.
- I hwyluso astudio a deall hanes menywod yng Nghymru, trwy:
    - Addysg ffurfiol a dysgu gydol oes;
    - Gweithgareddau estyn allan;
    - Cyhoeddiadau, gan gynnwys cyhoeddiadau ar-lein.

Caiff eitemau a roddir i AMC/WAW eu rhoi mewn archif briodol i darddiad y defnydd.

- Papurau, ffotograffau a defnyddiau archifol eraill: trwy eu hadneuo yn yr archifdy sirol perthnasol, i'w cadw yng nghasgliad AMC/WAW. Yn achos eitemau o bwysigrwydd cenedlaethol: trwy eu rhoi yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Dydyn ni ddim yn derbyn eitemau tri-dimensiwn, tecstiliau ayyb fel arfer. Os oes gennych eitemau felly, cysylltwch.
- Caiff llyfrau wedi'u cyhoeddi, gan gynnwys bywgraffiadau a hunangofiannau am fywydau menywod eu cadw yn Llyfrgell Glowyr De Cymru, Prifysgol Abertawe, ar ran AMC/WAW.
- Rhaid cydnabod mai AMC/WAW yw'r rhoddwr yn y rhestrau a'r arddangosfeydd o eitemau a roddwyd i amgueddfeydd ac i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Caiff copïau o ffotograffau a dogfennau, hanes bywgraffyddol / hunangofiannol am fywydau menywod, a.y.b.; defnydd wedi'i ddigido, fideos a recordiadau eraill, sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â'r defnydd a roddwyd yn y canolfannau a restrwyd uchod, eu cadw mewn man diogel.
- Ceidw AMC/WAW yr hawl i gynnwys pob un o'r eitemau uchod ar ei gwefan, yn amodol ar y deddfau hawlfraint a gwarchod data.

April 2012.